# Diogelwch plant ar TikTok

Ap rhannu fideos ydi TikTok. Gall defnyddwyr lwytho a rhannu fideos byr ohonynt yn mudganu neu'n actio sgetsys comedi, ac yna ychwanegu effeithiau arbennig. Gallant ennyn dilynwyr ('cefnogwyr') a phori drwy fideos pobl eraill.

13 a hŷn ydi'r oedran a argymhellir. Serch hynny nid oes rhaid i chi brofi eich oedran wrth greu cyfrif, felly gall plant iau ei ddefnyddio'n hawdd. Mae fwyaf poblogaidd ymysg y rhai o dan 16 oed.

**Beth yw'r pryderon:**

Mae'n bosibl eich bod wedi gweld adroddiadau newyddion neu glywed pryderon am rai defnyddwyr yn rhoi pwysau ar blant i anfon lluniau a fideos noeth. Am beth ddylwn i gadw llygad?

- Proffiliau defnyddwyr sydd yn sôn am 'fasnachu' neu gyfnewid lluniau/fideos
- Defnyddio 'emojis' sy'n cael eu defnyddio'n aml ar gyfer ensyniadau rhywiol (megis planhigyn wy)
- Hashnodau, megis #tradefortrade, sydd yn amlwg yn awgrymu bod y defnyddiwr yn dymuno masnachu cynnwys anghyfreithlon
- Cynnwys y geiriau yn rhai o'r caneuon – mae rhieni wedi mynegi pryderon nad ydynt yn briodol i oedran bob amser
- Ni all defnyddwyr gyfnewid lluniau a fideos drwy negeseuon yn yr ap, ond unwaith y maent wedi cysylltu maent yn symud ymlaen i blatfform arall i fasnachu, megis Snapchat.
- Mae TikTok wedi cymryd camau i gael gwared ar ddefnyddwyr mae'n amau sydd yn gofyn am bethau gan ddefnyddwyr dan oed.
  Serch hynny, mae yna lawer o broffiliau awgrymog ac mae TikTok wedi ymrwymo i ddyblu'r nifer o gymedrolwyr cynnwys y mae'n eu cyflogi i 10,000, i fynd i'r afael â hyn.

**Pa ddewisiadau diogelwch sydd ar gael i rieni?**

- Rheoli pwy sydd yn gallu gwylio fideos eich plentyn
- Gosod cyfrif eich plentyn i 'preifat' er mwyn i'ch plentyn reoli pwy sydd yn gallu gwylio eu fideos, neu eu cadw'n hollol breifat. Bydd eich plentyn yn gallu cymeradwyo neu wrthod pobl fel 'dilynwyr', a dim ond gan eu dilynwyr y gallant dderbyn negeseuon
- Mae'r cyfrifon yn cael eu gosod i fod yn gyhoeddus yn awtomatig.
  Gall unrhyw un edrych ar broffiliau cyhoeddus.
- Hyd yn oed gyda chyfrif preifat, gall pob defnyddiwr weld manylion proffil eich plentyn.
  Sicrhewch nad ydi eich plentyn datgelu gwybodaeth bersonol ar eu proffil cyhoeddus.

**Sicrhewch fod eich plentyn yn gwybod sut i adrodd ymddygiad amhriodol.**

Gall eich plentyn ddefnyddio'r ap i adrodd cynnwys sydd yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus, yn cynnwys cyfrifon, fideos, sylwadau a sgyrsiau. Gallwch chi hefyd. Mae'r cyfarwyddiadau ar gyfer hyn yma: http://support.tiktok.com/knowledge-base/report-inappropriate-content

Gallwch chi neu'ch plentyn atal 'dilynwyr' ar unrhyw adeg hefyd: http://support.tiktok.com/knowledge-base/delete-fans

**Beth arall alla' i ei wneud?**

Darllenwch fwy am breifatrwydd a diogelwch ar TikTok yn http://support.tiktok.com/article-categories/privacy-safety

1. Lawrlwythwch a defnyddiwch yr ap i'ch helpu i'w ddeall
2. Siaradwch gyda'ch plentyn am yr hyn maent yn ei wneud ar-lein, a sicrhewch eu bod yn gwybod y gallant siarad gyda chi am unrhyw beth sy'n peri gofid iddynt.
3. Gwiriwch eich mantolenni banc yn rheolaidd am unrhyw beth sydd wedi'i brynu yn yr ap nad ydych chi'n fodlon ag o, a sicrhewch nad ydi'ch plentyn yn twyllo'r cyfrineiriau rydych wedi'u sefydlu.